




A values driven approach

Prifysgol Iach – Diweddariad 2016



cardiff
met 



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Rhagair

Mae Met Caerdydd yn brifysgol fyd eang wedi'i gwreiddio yng Nghymru gyda hanes o addysg â ffocws ar ymarfer a hyrwyddo cyflogadwydd myfyrwyr ac sydd yn gofyn am ddull o fynd ati sy'n cael ei yrru gan werthoedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei dylanwad. Mae ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18 i 2022/23 yn cryfhau ein hymrwymiad i addysg, ymchwil ac arloesedd ar y cyd â'n myfyrwyr, llywodraethau, busnes a diwydiant gyda buddion pendant i unigolion, y gymdeithas a'r economi.

Mae sefydlu Prifysgol Iach, yn ei ystyr ehangach, yn hanfodol i lwyddiant ym mhopeth a wnawn. Fel y gwelir yn yr adroddiad hwn, gwnaed camau breision yn 2016 a bydd ein Cynllun Strategol newydd, ynghyd â'r gwelliannau cysylltiol i rai o'n dulliau o weithio, yn atgyfnerthu ein gallu i gyflenwi saith thema Prifysgol Iach.

Bydd swydd newydd, sef Dirprwy Is-Ganghellor a Deon Gweithredol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd, yn gweithredu fel arweinydd strategol Iechyd a Llesiant ar y lefel uchaf ar draws y Brifysgol drwy fod yn aelod o Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor.

Byddwn yn parhau i agor campysau ein prifysgol i ysgolion a chymunedau er mwyn cynyddu ein Hymglymiad Cymunedol a bydd ein model o Golegau Agored Caerdydd yn ein galluogi i gydweithio'n llawnach gyda'r cymunedau lleol yr ydyn ni'n eu gwasanaethu, yn enwedig drwy atgyfnerthu ein partneriaethau gyda cholegau lleol.

Mae ein Cynllun Strategol newydd yn gwneud ymrwymiad clir a diamwys i gynyddu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol ac i gynorthwyo'r iaith Gymraeg a'r Diwylliant, o gynnal cynhyrchu bydd lleol drwy ymchwil ein Canolfan Diwydiannau Bydd a'n harferion caffael i gynorthwyo a chefnogi celf Cymreig, llenyddiaeth Cymru, a'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru.

Roedd ennill y wobr gyntaf yng Nghymru a dod yn bedwerydd yn y DU yn 2016 yng Nghynghrair Y Bobol a'r Blaned Werdd yn gydnabyddiaeth o'n hymrwymiad i'r Amgylchedd.

Gwnaed cynnydd sylweddol i gynyddu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: drwy hyrwyddo Amrywiaeth fel un o'n pedwar dewis o werthoedd yn y cynllun Strategol Newydd; drwy gynyddu amrywiaeth yr uwch dîm rheoli o ran rhyw ac ethnigrwydd; drwy ennill dyfarniad efydd yr Uned Sialens Cydraddoldeb Athena Swan (Equality Challenge Unit Athena Swan) ar gyfer y brifysgol a thrwy weithredu i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu ar lefel yr uwch reolwyr; a thrwy gynorthwyo staff a myfyrwyr LGBT ac anabl o'r lefel uchaf drwy drefnu mwy o ddigwyddiadau cyhoeddus, addewidion ac ymrwymadau.

O wneud safiad yn y Cynllun Strategol newydd dros bob agwedd o strategaeth Prifysgol Iach, gallwch sicrhau y bydd ein holl adrannau yn Adrannau Iach.

Mae ein Prifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial er mwyn gwneud cyfraniadau nodedig fel graddedigion i'w cenhedlaeth eu hunain ac i genedlaethau'r dyfodol drwy dwf economaidd cynaliadwy a chydlynad cymdeithasol ar gyfer ein Dinas, Cymru a'r byd ehangach. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'r ymrwymiad hwn drwy ddarparu Prifysgol Iach lle bydd creadigrwydd, amrywiaeth, rhyddid ac arloesedd yn sefydlu Met Caerdydd fel un o'r prifysgolion mwyaf rhwyngwladol a dylanwadol, yn brifysgol sy'n newid y byd fesul un myfyriwr ar y tro.

Yr Athro Cara Aitchison

MA(Hons) PgDRLP CertEd MA PhD FacSS FRGS FHEA

Llywydd ac Is-Ganghellor ac Athro Daearyddiaeth ac Economi Diwylliannol



Datblygu Strategaeth

Mae'r Strategaeth Prifysgol iach wedi datblygu gyda chefnogaeth ac ymrwymiad eglur gan bob rhan o'r brifysgol. Cafodd ei harwain ac mae'n dal i gael ei harwain gan lais y staff a'r myfyrwyr.

Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu gwaith sy'n gymdeithasol gydlynol, yn amgylcheddol gyfrifol ac yn hollgynhwysol ac amgylchedd astudio sy'n ceisio ymglymu staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach. Y tri nod craidd o fewn cyfnod cynllunio 2016-20 ydy :

 **Cyfrifoldeb Cymdeithasol** – Cyfrannu at gymdeithas decach drwy wella effaith a dylanwad rhyngweithiadau ar ein cymunedau lleol, rhanbarthol a rhyngwladol.

 **Effeithiolrwydd Amgylcheddol** – Ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol fel egwyddor graidd cynllunio pob gweithgaredd.

 **Iechyd a Llesiant** – Creu amgylchedd lle ysgogir a chefnogir unigolion i berfformio hyd eithaf eu gallu ac o wneud hynny, gyfrannu at nodau, gwerthoedd a llwyddiant y Brifysgol.

Wrth ddatblygu'r strategaeth roedd y Brifysgol yn ymwybodol o ddyheadau ac egwyddorion Siarter Okanagan, Prifysgolion Iach y DU a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru ac felly ceisiodd sicrhau bod ei nodau a'i dull o fynd ati yn gydnaws â gwaith y cyrff hyn.

I raddau helaeth, datblygodd cynnwys y Strategaeth allan o gyfres o 'arddangosfeydd teithiol' staff a myfyrwyr a chyfleoedd ymgynghori eraill a gynhaliwyd yn ystod 2015/16. Darluniwyd yr arddangosfeydd hyn mewn ffurf gelf greadigol a 3D gweledol gan Chris Glynn (Uwch Ddarlithydd – darlunio – Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd [CSAD]) a myfyrwyr darlunio.

Yn ystod cyfnod ymgynghori'r Strategaeth, roedd hi'n amlwg bod llawer o arferion da wedi datblygu ac yn cael eu rhoi ar waith ar draws y Brifysgol. Yn aml, mae hyn wedi digwydd yn naturiol heb fawr o ymyrraeth gan weithrediadau corfforaethol y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn dymuno annog a galluogi gweithgareddau buddiol ac mae'n cydnabod bod hyn yn elfen bwysig wrth geisio diogelu'r hyn sy'n ysgogi a symbylu unigolion.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio rôl grwpiau a rhwydweithiau cymheiriaid yn y gwaith o ganfod ac arwain newid. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i symud o sefyllfa lle mae newidiadau a datblygiadau yn cael eu cefnogi'n dawel gan y mwyafrif i un lle gwelir mai barn glir y mwyafrif sy'n ffurfio'r newid a'r camau gweithredu.

Yn y meysydd y mae'r Strategaeth yn delio â nhw, swyddogaeth sylfaenol y rheolwyr ydy galluogi syniadau, ymddygiadau a gweithgareddau da i ddigwydd a chael eu cynnal.

Cafodd cyfoeth adborth y staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach ei gyfosod a'i drefnu mewn amrediad o themâu allweddol, pob un yn seiliedig ar gynllun gweithredu oedd yn gosod allan dargedau a mesurau penodol ac ar yr un pryd yn pwysleisio cyd-ddibyniaeth pob thema a'r manteision o gydlynu ein hymdrechion a'n hadnoddau.

www.cardiffmet.ac.uk/healthyuniversitystrategy

Amcanion Allweddol

Mae'r Strategaeth yn dangos y bwriad i ddefnyddio dull mwy cyfryngol o fynd ati i ddylanwadu ar y ffactorau sydd yn cael yr effaith fwyaf ar y math o brofiad y mae pobl yn ei gael o'r amgylchedd dysgu a gwaith megis: y berthynas gyda'u cymheiriaid/goruchwylwyr/rheolwyr; hinsawdd y sefydliad; y cyfle ar gyfer datblygiad personol; tegwch, cyfleoedd ar gyfer cydbwysio gwaith a bywyd; iechyd; diogelwch; llesiant personol; ac eco-gyfeillgarwch.

Cyda'i dull integredig o fynd ati i ymglymu cymunedau, i ddelio â iechyd a llesiant a chynaliadwyedd yr amgylchedd, mae gan y Strategaeth y potensial i fod o fudd sylweddol i weithrediadau'r brifysgol, yn arbennig:

- Gwell iechyd a llesiant myfyrwyr a staff.
- Gwell profiad i fyfyrwyr a gwell cyfraddau cadw.
- Gweithlu mwy brwd ac yn derbyn mwy o gefnogaeth a chymorth.
- Gwell perfformiad busnes a chynhyrchiant.
- Ymrwymiad ar lefel y sefydliad wedi'i gryfhau i weithredu cyfrifoldeb corfforaethol.
- Arddangos canfyddiad cadarnhaol y cyhoedd o'r Brifysgol.

Llwyddiant / Cyflawniadau

Mae gan y Brifysgol hanes llwyddiannus o fuddsoddi yn y gymuned lleol, ymwybyddiaeth amgylcheddol a datblygu cyfalaf dynol. Mae'r cyflawniadau canlynol sydd wedi'u cydnabod yn allanol yn dystiolaeth o'r cynnydd:

- Lefel Aur Safon Iechyd Corfforaethol.
- System Reoli Amgylcheddol ardystiedig ISO14001.
- Gwobr 'Aur' gwobrau cynllun teithio Llywodraeth Cymru ac am ddatblygu cynllun ail genhedlaeth rheoli carbon.
- Statws 'Arian' Buddsoddwr mewn Pobl.
- Symbolau Tic Dwbl Anabledd (Two Ticks) a Stonewall (Hoyw, Lesbiaid a Deurywiol).
- Prifysgol Masnach Deg.
- Gwobr Athena SWAN ('Efydd' Sefydliadol).
- Pencampwr Amrywiaeth Stonewall Cymru (LGBT+ Ymglymiad Cymunedol).

Mae'r adran hon yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar weithgareddau a mentrau'r Brifysgol Iach yn ystod 2016.

Mae'r strategaeth yn nodi pwysigrwydd ymdrechion cydlynol o wella canlyniadau perfformiad. Mae hefyd yn bwysig i egluro'r cyd-ddibyniaethau a'r buddion ychwanegol y gellir eu sicrhau wrth fabwysiadu dull holistaidd o fynd ati, er enghraifft, mae ActiveTravel yn cyfrannu'n gadarnhaol i iechyd a llesiant, Perfformiad Amgylcheddol ac Ymglymiad Cymunedol.

Felly, bydd yr enghreifftiau isod yn yr adroddiad ar ein cynnydd yn nodi prif themâu'r Brifysgol Iach y cyfrannwyd iddyn nhw o dan yr allweddau canlynol:



2016 - Mentrau a Chyflawniadau Prifysgol Iach

Ionawr

- Arddangosfeydd teithiol ymgynghori Prifysgol Iach – cynhaliodd y Brifysgol gyfres o arddangosfeydd teithiol ymgynghori lle cafodd pobl gyfle i ddysgu rhagor am y Strategaeth a chyfrannu at ei datblygiad. Yn yr arddangosfeydd a gynhaliwyd drwy gydol y mis ac ar draws y ddau gampws, darparodd y bobl a fynychodd adborth llafar ac ysgrifenedig ar y Strategaeth. Drwy gydol y cyfnod ymgynghori fe wnaeth staff a myfyrwyr Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd gyfleu ysbryd yr achlysur drwy gofnod gwledol animeiddio a throsiad.



- Gwella Gwasanaeth Cyfieithu'r Brifysgol drwy benodi Gweinyddydd Cyfieithu i ymglymu a chynorthwyo'r holl Brifysgol ymhellach i gwrdd ag anghenion cyfieithu.
- Darlith Agoriadol Athrawol – 'Be bold or italic, never regular' – Yr Athro Olwen Moseley – Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Chwefror

- Dyfarnwyd statws Masnach Deg i'r Brifysgol gan Sefydliad Y Fasnach Deg, diolch i gyd-ymdrechion y Pwyllgor Llywio sy'n cynnwys staff Undeb y Myfyrwyr, staff Met Caerdydd a gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr, yn creu cynllun gweithredu llwyddiannus.
- Y Gornel Gymraeg:** Cyfle i bob un o'r 426 aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar bob lefel i gwrdd, cymdeithasu, ymarfer a defnyddio/gwella sgiliau. Darperir te a choffi Masnach Deg.
- Creodd gwirfoddolwyr o fyfyrwyr lwybr newydd ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia ar gyfer ardal wersylla y fferm, yn palu sylfeini llwybr ffitrwydd newydd a chlirio cytiau ieir.
- Sialens Actif** – Yn ystod 2016 anogwyd staff Met Caerdydd i fod yn actif drwy gymryd rhan yn Sialens Cymru Travel. Nod y Sialens, gyda chymorth a chefnogaeth Elusen Teithio Cynaliadwy 'Sustrans', oedd cael cymaint â phosibl o bobl i deithio'n gynaliadwy yn lleol. Roedd staff Met Caerdydd yn gallu cofnodi eu cerdded, seiclo a theithiau cynaliadwy eraill ar wefan y gellir ei chyrru drwy fewnwyd y Brifysgol.



- I ddathlu amrywiaeth ddiwylliannol Met Caerdydd, mae Wythnos Fyd Eang yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol corff myfyrwyr Met Caerdydd gydag ystod o weithgareddau â themâu rhyngwladol ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr. Bwriad yr Wythnos Fyd Eang ydy darparu cyfle i fyfyrwyr a staff ar draws y brifysgol ddysgu a dathlu gwerthoedd a thraddodiadau ei gilydd ac i annog deialog, rhwydweithio ac integreiddio rhwng myfyrwyr o wahanol genhedloedd a chefnidiroedd. Trefnir a chydlynir yr Wythnos Fyd Eang gan ein Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau.

➤ **Wythnos Bydd Wyrdd (Go Green Week)** - Hon oedd y bedwaredd blwyddyn y mae'r Brifysgol wedi cymryd rhan yn yr wythnos Bydd Wyrdd sy'n ceisio tynnu sylw pobl at y newid yn yr hinsawdd a dewis opsiynau gwyrddach! Gweithiodd myfyrwyr ail flwyddyn y cwrs Rheoli Digwyddiadau yn galed ar y cyd â Rheolwr Perfformiad Amgylcheddol y Brifysgol i drefnu a darparu rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau ar gyfer yr wythnos. Cafodd y myfyrwyr y dasg o benderfynu ar y mathau o ddigwyddiadau a'r lleoliadau, ac eleni penderfynon nhw ganolbwyntio ar thema ailgylchu ac ail-ddefnyddio. Trefnwyd gwahanol weithgareddau bob dydd, Ailwampiwch eich Lamp; Hunanluniau Ymwybyddiaeth; Swap-a-thon Dillad; Gorsaf 'Smoothie' a Chystadleuaeth Ailgylchu Celf; Gêm Fideo – ffeirio a chwarae a Gwerthu Cacennau. Roedd llawer o weithgaredd y cyfngau cymdeithasol yn digwydd yn ystod yr wythnos i hyrwyddo'r gweithgareddau. Ychwanegodd Ystadau a Chyfleusterau nifer o ddigwyddiadau drwy gydol yr wythnos i gynorthwyo'r myfyrwyr a hefyd i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Campws.


➤ Gwirfoddolodd myfyrwyr yn ystod Wythnos Bydd Wyrdd i godi sbwriel gyda Cadwch Cymru'n Daclus ar hyd glannau Afon Taf.

➤ Penodwyd Tiwtor Cymraeg i Oedolion ychwanegol i gynyddu ystod a lled cyrsiau er mwyn i staff ddatblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg, i weithio tuag at weithlu mwy dwyieithog ym Met Caerdydd i gwrdd ag anghenion y myfyrwyr a'r cyhoedd.

➤ Y Rheolwr Perfformiad Amgylcheddol oedd y darlithydd gwadd i fyfyrwyr 'Vision in Sustainability' ar system Reoli Amgylcheddol ISO14001 ym Met Caerdydd. Aseswyd y myfyrwyr ar eu hadolygiad o Reolaeth Teithio a Gwastraff Cynaliadwy.

➤ Gwirfoddolodd myfyrwyr i weithio ar stondin wybodaeth Ailgylchu gyda Cardiff Digs ar gyfer Wythnos Bydd Wyrdd.

➤ Darparwyd stondin wybodaeth gan Cardiff Digs a gwirfoddolwyd o blith y myfyrwyr fu'n dosbarthu bagiau gwastraff a thafleini a bylbiau isel eu hegri (partneriaeth a ariannwyd gan Gyngor Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Met Caerdydd a Phrifysgol De Cymru – gan ddarparu a chynorthwyo myfyrwyr gyda chynghor ar faterion cymunedol yn cynnwys tai, gwastraff, bod yn gymdogion da a theithio ayb.).



➤ Fel rhan o Fis Hanes LGBT ym mis Chwefror, trefnodd ein Rhwydwaith LGBT+ Staff ar y cyd ag ysgol Chwaraeon Caerdydd ddigwyddiad yn cynnwys Delia Johnston, sylfaenydd 'Trans in Sport'.

Rhwydwaith Staff
LGBT+
Staff Network



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



➤ Digwyddodd yr achlysur ar Gampws Cyncoed dan y teitl "Should Trans people play sport in their new gender?"


Yn ei sgwrs, deliodd Delia Johnston â rhai o amwyseddu terminoleg y 'T' a galw am ddealltwriaeth mwy deallus a chymhwysol. Siaradodd am ei thaith personol a'i gwaith ym myd chwaraeon, gan dynnu sylw at rai o'r problemau cyfredol sy'n wynebu'r byd chwaraeon. Daeth yr achlysur i ben gyda chyfle a man diogel i holi ac ateb cwestiynau ar unrhyw agwedd o'r sgwrs.



Mawrth

- **Pythefnos Masnach Deg** – hyrwyddo cynhyrchion Masnach Deg gyda gweithgareddau o gwmpas y Campws gydag Undeb y Myfyrwyr ac Arlwyio Met Caerdydd – Brecwast Masnach Deg oedd y thema eleni.
- Gwirfoddolodd staff a myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr i lanhau Traeth gyda Cadwch Gymru'n Daclus, gan gasglu poteli diod, plastig a rhaffau a olchwyd i'r lan ar y traeth. Casglwyd un ar hugain o sachau'n llawn gwastraff. Daeth y myfyrwyr o hyd i lawer o fasgl wyau siarc a fydd yn dangos iddyn nhw pa fathau o siarcod sydd yn y moroedd i gwmpas Prydain.

- Penodwyd Tiwtor Cymraeg i Oedolion ychwanegol i gynyddu ystod a lled cyrsiau er mwyn i staff ddatblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg, i weithio tuag at weithlu mwy dwyieithog ym Met Caerdydd i gwrdd ag anghenion myfyrwyr a'r cyhoedd.
- Darlithoedd Agoriadol ac Athrawol – Moeseg chwaraeon: ar fod y 'siort' iawn, Yr Athro Carwyn Jones – Ysgol Chwaraeon Caerdydd
- **Cynhaliwyd Gwersylloedd Dreigiau Pasg (Easter Dragon Camps)** lle gallai plant o 4 oed eu mynychu i gael hwyl a gemau drwy gydol y gwyliau Pasg. Dod â'r gymuned i'r Brifysgol a helpu cadw plant lleol yn hapus, iach ac actif drwy gydol y gwyliau.



Ebrill

- Ychwanegu Bwyd Cynaliadwy ac Ymchwil Amgylcheddol fel meysydd Agwedd newydd o fewn System Reolaeth Amgylcheddol ISO14001 y Brifysgol.
- Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol: derbyniodd dros 50 o fyfyrwyr Ysgoloriaeth ar gyfer astudio'u cwrs a mynd ar leoliadau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cwblhawyd Arolwg Iechyd a Llesiant Staff gan 742 o staff.



- Derbyn tystysgrif yn cadarnhau cyflawni Lefel Platinwm ar gyfer Cynllunio Teithio yn y Gweithle. Drwy gyflawni Lefel Platinwm, rydyn ni'n ymuno â dim ond pedwar sefydliad arall yng Nghymru y mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu Lefel Platinwm iddyn nhw.

- Darlithoedd Agoriadol ac Athrawol – Ymchwil biofeddygol a chlinigol – ydy hi'n bosibl i ddeall datblygiadau ym maes ymchwil clinigol heb ddeall ystadegau – Yr Athro Keith Morris – Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd.

Mai

- **Dysgu Dilys (Authentic Learning).** Rhaglen sy'n cynnig profiad cyflogaeth 'y byd go wir' i fyfyrwyr: mae myfyrwyr sy'n gwirfoddoli yn hyfforddi fel Archwilyr ISO14001 (Amgylcheddol), darparwyd mentora a chymorth ar eu cyfer ac maen nhw'n cwblhau 25 archwiliad ar draws amrywiaeth o weithgareddau o fewn y Brifysgol.
- Ym mis Mai a Mehefin, cymerodd myfyrwyr ran yn yr ymgyrch **Gwaredu'r Gwastraff**, a anogodd myfyrwyr i ailgylchu / cael gwared ar eu sbwriel yn gywir cyn mynd adref dros yr Haf.
- Met Caerdydd yn croesawu Bwrdd Academiaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o bob cwr o Gymru. Cyflwyniad gan yr Uned Iaith Gymraeg ar y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym Met Caerdydd a thaith o gwmpas arddangosfa ddiwedd blwyddyn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd.
- Gweithgareddau marchnata Cymru gyda CSS, dyddiau profi gyda disgyblion chweched dosbarth lleol a chynhadledd CSM.
- Cynllun Beicio. Yn ystod 2016 roedd dros 50 o aelodau staff yn gallu cael beic newydd drwy'r Cynllun Cenedlaethol Beicio i'r Gwaith. Mae'r cynllun, a weinyddir ym Met Caerdydd gan yr Adran Adnoddau Dynol a Chyfleusterau, yn galluogi staff i gael beic gan arbed treth o hyd at 40%. Hyrwyddwyd y cynllun ym Met Caerdydd drwy fis Mai a phan gaeodd roedd cynnydd amlwg yn y defnydd o'r cyfleusterau storio beiciau.

Mehefin

- Gwasanaeth Arlwygo a Lletygarwch y Brifysgol yn derbyn Gwobr Arian Cymdeithas Bwyta Cynaliadwy am ragoriaeth ar draws ei weithrediadau. Fframwaith ydy Cymdeithas Bwyta Cynaliadwy (SRA) i symleiddio cymhlethdod cynaliadwyedd yn y diwydiant bwyd, yn seiliedig ar gyrchu, cymdeithas a'r amgylchedd.
- **Wythnos Addysg Oedolion** – Dyfarnwyd cyllid i Ehangu Mynediad i gynnal 'Upcycling with Stitch' yng Nghanolfan Llesiant Inroads ar gyfer pobl sy'n gaeth i gyffuriau, alcohol neu'n cam-drin sylweddau.
- Staff Met Caerdydd yn cyflawni canlyniadau rhagorol yn arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC, Mynediad Sylfaen a Chanolradd.



Gorffennaf

- Cwblhau cerdyn sgorio **gwyrd AUDE** – adnodd i fesur perfformiad cynaliadwyedd o fewn sefydliadau AB ac i ddarparu fframwaith ar gyfer ymdrech gynaliadwyedd barhaus.
- Lansio tudalennau gwe newydd "Cynaliadwyedd" sy'n dod â gwaith eang y maes hwn a chyflawniadau gwych y maes at ei gilydd (Cynaliadwyedd).
- Cynnal Ysgol haf dair wythnos Ehangu Mynediad yn cynnig addysg oedolion am ddim i oedolion o ddysgwyr an-nhraddodiadol ar gampws Llandaf.



- Staff yn cwblhau eu cyrsiau Cymraeg gyda dathliad yn Amgueddfa werin Sain Ffagan.
- Cyhoeddi holiadur o'r enw "Halls to Home" i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'u cyfeirio at gyfarwyddyd gwefan Llety Caerdydd ar gyfer symud ymlaen i'w hail flwyddyn. Roedd yr holiadur yn ateb i aseiniad dysgu dilys a osodwyd gan Reolwr Perfformiad Amgylcheddol i grŵp o fyfyrwyr Busnes ar Waith.
- Dysgu Dilys: Cafodd grŵp o fyfyrwyr Busnes ar Waith y dasg o wella mentrau ailgylchu / gwastraff mewn Neuaddau Preswyl.

Gwirfoddolodd **92 myfyriwr** gyfanswm o **654 awr** gyda phrosiectau UM Met Caerdydd, Hyrwyddwyr Amgylcheddol (Llety Caerdydd) a Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd (SVC).

Mae gan Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd **41** cymdeithas **wedi'u cofrestru'n swyddogol** yn amrywio o gymdeithasau'n seiliedig ar gyrsiau, actifyddion, cyrsiau'n seiliedig ar genedl a hobïau.

Cyrhaeddodd Met Caerdydd y brig yng Nghynghrair y Bobl a'r Blaned Werdd yn dod yn **1af yng Nghymru** ac yn **4ydd yn y DU**, yn codi o'r 2ail safle yng Nghymru a'r 19fed yn y DU.

Darpariaeth ymhob un o'r **5 ysgol** ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, **traean o bob rhaglen**.

Mwy o fyfyrwyr yn astudio Busnes, Rheolaeth a Thwristiaeth ym Met Caerdydd drwy **gyfrwng y Gymraeg** nag yn holl Brifysgolion Cymru gyda'i gilydd.

Ymgynghoriad Myfyrwyr gwelwyd gwelliant yn llwybrau teithio ac amseriad bysys Met Caerdydd ym Medi 2016.

Llwyddiannau allweddol drwy arolwg o deithio staff a myfyrwyr, cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cerdded i'r campws 35% (2013 = 28%) a gostyngiad yn y nifer o fyfyrwyr sy'n defnyddio'r car 24% (2013 = 27%). Cynnydd yn nifer y staff sy'n cerdded (18.84%) a beicio (17.84%) i'r campws.

Noddi Academi Criced Morgannwg, Clwb Pêl-droed Panthers Lllysfaen, Clwb Rhwyfo Llandaf; Clwb Pêl-droed Iau Machen Devils; Clwb Criced Iau Meisgyn; Partneriaeth Gymunedol Rygbi Ysgolion y Rhondda – Clwb Criced yr Eglwys Newydd a'r Rhath; Cyfeillion Eglwys Gadeiriol Llandaf; Clwb Rotari Llandaf; Pride Cymru; Maint Cymru (Size of Wales) – elusen sy'n ceisio dod â phawb yng Nghymru at ei gilydd i helpu cynnal ardal o goedwig drofannol maint Cymru fel rhan o ymateb cenedlaethol i'r newid yn yr hinsawdd.

Mynychodd **tua 500** o Staff, Myfyrwyr a Gwahoddedigion Pwysig Gyngerdd Carolau Blynyddol y Brifysgol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ynghyd â'r gymuned a phartneriaid lleol.

Cafodd dros **50 staff** wiriadau iechyd yn 2016.

Cyrchwyd gwasanaeth Galwedigaethol Iechyd a Llesiant **733 gwaith** yn 2016 (ffisio, therapïau cyflenwol, ymweliadau Iechyd Galwedigaethol ac Asesiadau Iechyd).

Sickness Absence was once again below national norms, at **2.8%** (mae cyfartaledd cenedlaethol y sector addysg yn 3.9%).

Siaradwyr Cymraeg o blith y staff: 59 yn rhugl, 36 eitha da, 331 yn siarad ychydig.

Dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion: 54 aelod o'r staff.

Hyfforddiant i ddelio ag ymholiadau dwyieithog: **22 aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant.**

Siaradwyr Cymraeg o blith y myfyrwyr: 1465 (715 yn rhugl, 752, ddim yn rhugl).

Uchafbwyntiau allweddol o Arolwg Iechyd a Llesiant, cyfrannodd tua **750** o staff, a thros **80%** o staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol uchel neu weddol uchel eu lefel bob wythnos, amlygodd y canlyniadau bod y mwyafrif o'r staff yn nodi bod bwyta'n iach naill ai'n 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn' (**79%**), Ar gyfartaledd mae staff Met Caerdydd yn treulio dros **7 awr y dydd** ar eu heistedd (mae desgiau sefyll wedi cael eu cyflwyno), dydy **6%** o'r staff byth yn yfed alcohol, mae **6%** o'r staff yn yfed alcohol bob dydd bron. Mae Arolwg diweddaraf Iechyd Cymru yn nodi bod cyfraddau ysmegu yn 2015 yn **19%**, tra bod cyfradd cyfredol Met Caerdydd yn **6%.**



Certificate Number 9685



Awst

- **Cytunodd ASH Cymru** – yr elusen stopio ysmegu – i gydweithio gyda'r Brifysgol i wireddu ei dyhead i sicrhau bod campysau Met Caerdydd yn ddi-fwg.



ash wales cymru
action on smoking and health

- Mynychodd LGBT a rhwydwaith Staff Met Caerdydd achlysur Pride Cymru yng Nghae Cooper ynghyd ag aelodau staff adran Recriwtio Myfyrwyr. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i Met Caerdydd gael ei stondin ei hun yn y digwyddiad. Roedd Pride Cymru yn gyfle i'n LGBT a'n Staff ynghyd â chydweithwyr ddathlu amrywiaeth a chynhwysiad a gweithredu i hyrwyddo Met Caerdydd fel amgylchedd croesawus a chynhwysol ar gyfer darpar staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach.

- **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** yn Y Fenni: Bu Ysgol Chwaraeon Caerdydd yn y babell wyddoniaeth drwy'r wythnos a chynnal derbyniad corfforaethol gyda sesiwn holi ac ateb am fusnes yng Nghymru.
- Bu lechyd a Llesiant yn ymwneud â chystadleuaeth cyfrif sawl cam / sawl cylchdro beic mewn munud, wedi'i hanelu at bob grŵp oed er mwyn hyrwyddo astudiaeth ac ymarfer byw'n iach ym Met Caerdydd.

Medi

- Cyflwynodd Rheolwr y Ddarpariaeth drwy Gyfrwng y Gymraeg dystiolaeth mewn cyflwyniad i Bwyllgor Llywodraeth Cymru ar y strategaeth o gael 1 filiwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.
- Mynychodd aelodau o dîm Prifysgol Iach yr Ŵyl Newid Ymddygiad yn Abertawe oedd wedi'i hanelu at unrhywun â diddordeb mewn newid ymddygiad unigolion neu a lefel gymdeithasol ehangach. Teitl yr ŵyl oedd 'Turning Upside - Future Proofing Wales through Behaviour Change Science', oedd yn adlewyrchu graddfa'r sialens a'r uchelgais oedd ei hangen i greu Cymru sy'n diwallu dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ffocws y digwyddiad oedd newid y modd yr ydyn ni'n ymddwyn a'r hyn a wnawn nawr er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael yr un cyfle â ni, os nad gwell cyfleoedd na ni.



- Mae Met Caerdydd yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Cymru Stonewall ac mae'n gweithio'n agos gyda Stonewall i wneud ein gweithle y gorau gall fod. Ym mis Medi 2016, cwbllhaodd y Brifysgol Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle (WEI) sy'n adnodd meincnodi er mwyn i gyflogwyr fesur eu cynnydd ar gynhwysiad LGBT yn y gweithle. Yng Nghyflwyniad 2017 o Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle (Stonewall Cymru), roedden ni yn safle 245 yn 2016.

- Cynhadledd Cynghrair Dysgu Carchardai'r DU ar gampws Llandaf a lansiad Llawlyfr Dysgu mewn Carchar mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Addysg mewn Carchar, i gynorthwyo dysgwyr sy'n astudio cyrsiau dysgu o hirbell ar lefel uwch yn y carchar, fel rhan o broses o ostwng chyfraddau ail-droseddu cyn ac wedi iddyn nhw gael eu rhyddhau o garchar.



- Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Met Caerdydd ag Anthony Metcalf, MIND Cymru a chytuno i weithio tuag at arwyddo addewid Amser i Newid Cymru er mwyn cael gwared â'r stigma sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl.
- Bu'r staff yn dathlu teithio cynaliadwy i'r campws. Mae'r fentr yn annog ac yn gwobrwyo teithio cynaliadwy drwy ddarparu brecwast iach yn ystod dwy wythnos ar ddechrau'r tymor newydd ar gyfer y staff hynny sydd naill ai'n cerdded, beicio neu'n defnyddio cludiant cyhoeddus i fynd a dod i'r campws.

Hydref

- Anrhydedd dosbarth cyntaf llwyddiannus yng Nghynghrair Y Bobol a'r Blaned Werdd yn 2016, pan ddyfarnwyd Met Caerdydd yn gyntaf yng Nghymru a dod yn bedwerydd yn y DU yn 2016 allan o 150 o brifysgolion, lle o'r blaen roedden ni'n 19eg yn y DU ac 2ail yng Nghymru.
- Yn archwiliad allanol llwyddiannus ISOQAR o System Rheoli Amgylcheddol ISO14001, ni chodwyd unrhyw fater nag argymhellion ar gyfer gwella.
- Dysgu Dilys:** Myfyrwyr Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd ac Ysgol Rheoli Caerdydd yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad Prifysgol Iach drwy ddylunio ymgyrchoedd a rhai o themâu allweddol Prifysgol Iach. 'Cyfathrebu', cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg a diwylliant Cymru, Cludiant Cynaliadwy, ymglymiad cymunedau, iechyd a llesiant a phrosiectau Masnach Deg. Darparodd y prosiectau a gafodd eu hymgorffori yn addysg y myfyrwyr nid yn unig brofiad gwerthfawr o'r byd go wir ar gyfer ein myfyrwyr ond hefyd roi cyfle i lais myfyrwyr gael ei glywed wrth ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Prifysgol Iach.



Fairtrade stand at Go Green Day in October 2016

- Diwrnod Bydd Wyrdd**, Cyfle i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau amgylcheddol ar y Campws ymhlith myfyrwyr a staff, e.e. Egri, Gwastraff, Bioamrywiaeth, Gardd Cymunedol, Masnach Deg ac elusen 'Smalls for All'.
- Lansio chwe dosbarth newydd Cymraeg i Oedolion ar gyfer staff – i ateb anghenion amrywiaeth o lefelau a gallu ieithyddol. Mae pob dosbarth am ddim i'r staff ac maen nhw'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos waith.

- Trefnodd Undeb y Myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli fynd â chŵn digartref am dro dros yr elusen Hope Rescue.
- Gwirfoddolodd myfyrwyr yn ystod Hanner Marathon Caerdydd.
- Gwirfoddolodd myfyrwyr yn ystod yr wythnos Grwydrad Cymunedol (Community Walkabout) gyda Chyngor Llety Caerdydd i guro ar ddrysau mewn ardaloedd lle mae myfyrwyr yn byw i roi citiau ailgylchu a chyngor.
- Students volunteered with clearing a garden for the Charity – Bobath..
- Gwirfoddolodd myfyrwyr yn ystod yr wythnos Grwydrad Cymunedol (Community Walkabout) gyda Chyngor Llety Caerdydd i guro ar ddrysau mewn ardaloedd lle mae myfyrwyr yn byw i roi citiau ailgylchu a chyngor.





Y gwirfoddolwyr cerdded cŵn Hydref 2016


Mynychodd Undeb y Myfyrwyr a myfyrwyr ddiwrnod Gwirfoddoli ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia. Mae'r Fferm yn darparu addysg wahanol ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu. Ymhlith tasgau'r gwirfoddolwyr roedd paentio ffens, symud dail oedd wedi cwmpo a thynnu ffens cwt ier i lawr.



Gwirfoddolwyr ar fferm Ymddiriedolaeth Amelia - Hydref '16



Gwirfoddolwr yn paentio ffens ar fferm Ymddiriedolaeth Amelia- Hydref '16



Gwirfoddolwyr yn Glanhau Traeth yn Ogwr Hydref '16



- Mynychodd myfyrwyr sesiwn o Lanbau Traeth a drefnwyd gan Undeb y Myfyrwyr mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus.
- Cyflwynodd Undeb y Myfyrwyr Gyfnewidfa Ieithyddol wythnosol er mwyn i fyfyrwyr cael cwrrd â phobl newydd, dysgu iaith newydd ac ymlacio mewn amgylchedd cyfeillgar ac anffurfiol




LANGUAGE EXCHANGE CLUB

EVERY FRIDAY

12-2PM LLANDAFF STUDENTS' UNION
 Learn new languages, explore new cultures
 and make new friends.

ALL STUDENTS WELCOME
 Contact Della via dhill@cardiffmet.ac.uk for
 info or call in to the SU offices.



➤ **Mis Hanes Pobl Dduon** – Roedd Met Caerdydd yn un o brif noddwyr achlysur Gwobrau Ieuenctid 'Ifanc, Talentog a Du' a gynhaliwyd gan Fis Hanes Pobl Dduon Cymru 2016 a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol Cymru. Ar ben hyn, roedd gan y Brifysgol stondin yn y digwyddiad lansio Mis Hanes Pobl Dduon. Roedd yr achlysuron hyn yn gyfle i ddatlu cyfraniadau pobl o dras Affricanaidd i'n hanes a'n treftadaeth yma yng Nghymru. Roedd yn dangos bod gennym feddwl uchel o amrywiaeth ein cymuned ac fel Prifysgol wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'r cymunedau hyn er mwyn gweithredu i lunio dyfodol mwy cadarnhaol a chymhwysol yng Nghymru.



Tachwedd

- Darlithoedd Agoriadol ac Athrawon – Cath Schrodinger a Pharadocs Asesiad Ysgol -Yr Athro Dan Davies, Ysgol Addysg Caerdydd.
- **Dysgu Dilys:** Archwilio Amgylcheddol, 6 myfyriwr yn mynychu cwrs Hyfforddi Archwilydd Mewnol, yn barod i gymryd rhan yng Nghynllun Archwiliad Mewnol ISO14001 ar gyfer 2016/17.



- Gwell Gwiriadau Iechyd - 20 o staff a myfyrwyr yn manteisio ar y cyfle i gael gwell Gwiriad Iechyd trwy garedigrwydd Canolfan Iechyd Galwedigaethol a Chlinigau Llesiant Cymru.

- Yn dilyn cais Cardiff Met yn Ebrill 2016 am wobwr Efydd Sefydliadol Swan Athena, dyfarnwyd yr efydd i'r Brifysgol.



- Oherwydd canlyniad cadarnhaol y sefydliad, gwnaeth Ysgol Chwaraeon Caerdydd ac Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd gais yn eu tro am wobrau Arian ac Efydd Athena SWAN.



- Mynychodd Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Met Caerdydd Gynhadledd flynyddol yr Uned Herio Cydraddoldeb yn Nottingham. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i rwydweithio a rhannu arferion da o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Darlithoedd Agoriadol ac Athrawol - Leave Out Everything Except the Magic - Wendy Keay-Bright –Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd.

- Chwaraeodd Clwb Pêl-droed Staff Met Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr 11 gêm a chodon nhw £444 i Movember i helpu newid delwedd iechyd dynion



Rhagfyr

- Cytunodd Bwrdd Undeb y Myfyrwyr i fod yn rhan o Strategaeth Prifysgol Iach.
- Derbyniodd Myfyrwyr Archwilio fel rhan o'u Dyfarniad HEAR am hyfforddi a chwblhau archwiliadau ISO 14001 o System Reoli Amgylcheddol y Brifysgol.
- Cyngerdd Carolau – Cynhelir y digwyddiad blynyddol hwn yn ystod gŵyl y Nadolig yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ac mae'n agored i bawb. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys darlenniadau a charolau traddodiadol ac yna'n symud i Gampws Llandaf y Brifysgol lle caiff yr holl westeion fins peis a gwin twym.
- Y Gornel Gymraeg: Cyfleoedd i staff Cymraeg eu hiaith gwrrd a defnyddio'u sgiliau ieithyddol yn y gwaith.

Plans for 2017...



Cynlluniau ar gyfer 2017...

- Creu prosiectau Byd Go lawn gyda phob Ysgol –drwy'r flwyddyn.
- Trawsnewid o ISO 14001: 2004 i ISO 14001 :2015 – drwy'r flwyddyn.
- Mentora myfyrwyr archwilio newydd (5) drwy eu Harchwiliadau fel rhan o'u dyfarniad HEAR – drwy'r flwyddyn.
- Ymglymu ymhellach gyda phartneriaid allanol– drwy'r flwyddyn.
- Mentrau ymgysylltu â'r Amgylchedd i ysgogi myfyrwyr i ystyried eu dewisiadau a'u hopsiynau – drwy'r flwyddyn.
- Cyflwyno Safonau Cymraeg Llywodraeth Cymru a fydd yn cynyddu'n sylweddol y gwasanaethau y mae'r brifysgol yn eu cynnig i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg – drwy'r flwyddyn.
- Llofnodi Addewid Amser i Newid Cymru –Ionawr 2017.
- Cyflwyno data 50% o sgôr Pobl a Phlaned i Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA) – Chwefror 2017.
- Sesiwn 'Ymwybyddiaeth o Gyfeillion Dementia' y bydd Cymdeithas Alzheimers yn ei chynnal – Chwefror 2017.
- Cynllunio a chyflenwi Wythnos Bydd Wyrdd ar gyfer pob Campws – Chwefror 2017
- Darparu a chyflenwi digwyddiadau Gweithdy Gwyrdd am ddim i staff a myfyrwyr, er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cynaliadwy – yn cychwyn Chwefror 2017.
- Ail-baentio ystafell yn siop elusen Ymchwil Canser Cymru, cyfle i wirfoddoli a thrawsnewid y gofod yn lle golau, croesawus at ddefnydd gwirfoddolwyr yr elusen – Chwefror 2017.
- Prosiect gwirfoddoli ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia, a'r dasg fydd llyfnhau gwaith coed yr hen feinciau a helpu i chwynnu'r buarth – Mawrth 2017.
- Darparu Marchnad Ffermwyr ar bob Campws – Mawrth 2017.
- Adolygiad o Bolisi Amgylcheddol / Cynaliadwyedd – Mawrth / Ebrill 2017.
- Gweithredu canlyniadau sy'n deillio o brosiectau'r Byd Go lawn, Cyfathrebiadau Graffig Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd – Ebrill 2017.

- Diwrnod Ar Eich Traed Brydain – Mai 2017.
- Bydd gwirfoddolwyr yn cymryd rhan yn ymgyrch 'Gwastraff Caerdydd' a gynhelir drwy Gyngor Caerdydd fel rhan o brosiect Hyrwyddwyr Amgylcheddol. Bydd myfyrwyr yn curo ar ddrysau tai myfyrwyr yn Cathays/Y Rhath/Gabalfa i annog y myfyrwyr i ailgylchu / cael gwared ar eu sbwriel yn gywir ar ddiwedd y tymor - Mai / Mehefin 2017.
- Cymdeithas Bwytaï Cynaliadwy (SRA) cyflwyniad newydd i gael achrediad Aur – Mehefin 2017.
- Symud ymlaen gyda chyflwyno Pobl a Phlaned – Gorffennaf 2017.
- Lleolir aelod o Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd (SVC) yn Swyddfeydd Undeb y Myfyrwyr bob dydd Mawrth yn ystod y tymor i hybu cyfleoedd a manteision gwirfoddoli.
- Arolwg o Sgiliau Cymraeg i'w ddosbarthu i bob aelod o staff.
- Cynorthwyo gyda chynllunio gweithlu ar gyfer fframwaith FfCChC (CQFW) i ddysgu ieithoedd.
- Cais i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol - Ysgoloriaethau Cymraeg, grantiau cymhelliant, cyfanswm o £25,000 – Ionawr 2017.
- Cyllid newydd ar gael ar gyfer Ysgoloriaeth Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg i Ysgol Reoli Caerdydd ac Ysgol Chwaraeon Caerdydd.
- Darlithoedd Athrawol unwaith y tymor.
- Digwyddiadau misol hanes LGBT – Chwefror 2017.
- Cyflwyniad Stonewall ar Gydraddoldeb yn y Gweithle (WEI) – Medi 2017.
- Digwyddiadau Diwrnodau Rhyngwladol Menywod – Chwefror 2017.
- Gweithio tuag at Safonau'r Iaith Cymraeg y mae disgwyl iddyn nhw gael eu cyflwyno fis Medi 2017.
- Cefnogi Diwrnod BYDD WYRDD a digwyddiad Maint Cymru – Hydref 2017.



A values driven approach



THE QUEEN'S
ANNIVERSARY PRIZES
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION
2015

 BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Arian



Rhif Tystysgrif: 9685